

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y Bil Ysgolion

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Ysgolion ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Arglwyddi, ar 11 Mai 2022. Drwy ymgysylltu â Llywodraeth y DU, deallwn fod darpariaethau'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cwmpasu Cymru a Lloegr, ond ac eithrio diwygiadau canlyniadol i deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, eu bod yn gyfyngedig i Loegr yn unig. Mae'r diwygiadau canlyniadol arfaethedig yn y Bil i Ddeddf Addysg 1996 yn ailddatgan y gyfraith, fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Ar y sail nad yw darpariaethau'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru y tu hwnt i'w hailddatgan, nid wyf yn ystyried bod angen cydsyniad Senedd Cymru mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.
3. Ar 30 Mai, cyflwynwyd *Gwelliant 96* i'w ystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a ddechreuodd ar 8 Mehefin ac a ddaeth i ben ar 27 Mehefin. Cytunwyd ar y gwelliant ar 20 Mehefin, ac mae wedi'i ymgorffori yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn Atodlen 3, paragraff 1. Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, ac a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin, i'w weld yn: [Schools Bill \[HL\] - Parliamentary Bills - UK](#)
4. Ysgrifennais at y Llywydd yn amlinellu'r sefyllfa ym mharagraff 2 uchod, ac yn nodi'r ffaith bod yna oedi wedi bod cyn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, yn rhannol am mai dim ond ar 31 Mai, ar ôl ei gyflwyno, y rhoddodd Llywodraeth y DU wybod imi am y gwelliant arfaethedig.

Amcan(ion) y Polisi

5. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan amcanion y polisi fel a ganlyn:
 - a. Mae'r Bil yn sail i'r nodau a amlinellir ym Mhapur Gwyn *Opportunity for All: Strong Schools with great teachers for your child* a'i uchelgeisiau i wella'r system addysg.
 - b. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau sy'n adeiladu ar argymhellion gwahanol ymgynghoriadau, gan gynnwys ymgynghoriad *Children Not*

in School, ymgynghoriad Regulating independent educational institutions, ymgynghoriad Fair school Funding for all: completing our Reforms to the National Funding Formula, ymgynghoriad Teacher Misconduct: regulating the teaching profession ac ymgynghoriad School attendance: improving consistency of support.

6. Mae Llywodraeth y DU yn honni bod y Bil yn darparu'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd ei hangen i godi safonau ysgolion, gwella lefelau presenoldeb a gwella gweithdrefnau diogelu i blant lle bynnag y cânt eu haddysgu yn Lloegr. Mae Rhan 2 o'r Bil yn darparu ar gyfer fframwaith newydd ar gyfer cyllid ysgolion yn Lloegr.

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.
8. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau sy'n:
 - Cyflwyno pŵer sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n rhagnodi 'safonau academiâu'. Bydd y rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion ar berchnogion academiâu y gellir eu cymhwyso'n gyson ar draws ymddiriedolaethau academiâu.
 - Rhoi cyfres o bwerau ymyrryd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â sut mae perchnogion academiâu yn eu rhedeg.
 - Sicrhau bod awdurdodau lleol yn trosglwyddo tir i ymddiriedolwyr safleoedd os byddant yn darparu safle amgen newydd ar gyfer academi sy'n perthyn i'r Eglwys yn Lloegr.
 - Diogelu disgyblion sy'n mynychu sesiynau cydaddoli bob dydd ac sy'n cael darpariaeth addysg grefyddol mewn ysgolion academi a ddynodwyd yn grefyddol.
 - Darparu dyletswydd a phŵer i wneud rheoliadau ynghylch llywodraethiant academiâu sydd eisoes, neu a fydd yn y dyfodol, wedi'u dynodi'n academiâu â chymeriad crefyddol.
 - Gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi ysgol academi yn ysgol ramadeg, a nodi mewn statud mai'r unig ffordd o ddileu trefniadau derbyn detholus ysgol ramadeg yw drwy bleidlais rhieni.
 - Cyflwyno amgylchiadau ychwanegol pan gaiff yr Ysgrifennydd Gwladol droi ysgolion a gynhelir yn academiâu ac ymestyn yr amgylchiadau pan gaiff gyhoeddi Gorchymyn Academi er mwyn troi ysgol a gynhelir yn academi.

- Gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyllid pob ysgol brif-ffrwd drwy un fformiwla ariannu genedlaethol a gymhwysir yn uniongyrchol.
- Sicrhau bod polisïau i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn cael eu hysgrifennu, eu cyhoeddi a'u dilyn. Mae'r mesur hwn hefyd yn ymestyn pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch caniatâd absenoldeb.
- Cyflwyno trefn sy'n golygu bod awdurdod lleol yn cofrestru plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn cael eu haddysgu'n llawn amser mewn ysgolion, a dyletswydd ar rieni a rhai darparwyr addysg y tu allan i'r ysgol i roi gwybodaeth i awdurdodau lleol ar gyfer y gofrestr. Mae'r mesur hwn yn cyflwyno sancsiynau ariannol ar gyfer darparwyr addysg nad ydynt yn cydymffurfio, ac yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau statudol. Mae'r mesur hefyd yn ei gwneud yn bosibl newid y drefn o ran gorchmynion presenoldeb mewn ysgolion yn Lloegr.
- Ehangu categori'r sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r drefn reoleiddio sy'n ymwneud ag ysgolion annibynnol, ym Mhennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008, i gynnwys mwy o sefydliadau sy'n darparu holl addysg plentyn, neu'r rhan fwyaf ohono, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd.
- Cyflwyno pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cyfyngiadau perthnasol pan fydd newid perthnasol i fanylion cofrestru sefydliad addysgol annibynnol yn cael ei weithredu heb gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Hefyd, mae'r hyn a olygir wrth newid perthnasol, a'r sail ar gyfer ystyried ceisiadau i gymeradwyo newid perthnasol, yn cael ei addasu. Yn ogystal, rhoddir y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol osod safonau i wrthod perchnogion ar y sail nad ydynt yn addas ac yn briodol, pan fydd newid perthnasol yn golygu newid perchennog, ac ar adegau eraill megis pan ddaw cais i gofrestru sefydliad addysgol annibynnol.
- Newid ar ba sail y bydd llys yn dod i benderfyniad ynghylch apêl statudol yn erbyn penderfyniadau penodol i ddileu sefydliad addysgol annibynnol o'r gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol, o adolygiad rhinweddau i adolygiad barnwrol.
- Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i atal sefydliad addysgol annibynnol rhag cofrestru dros dro os torrir safonau sefydliadau addysgol annibynnol, ac os gallai fod perygl o niwed i fyfyrwyr sy'n mynychu'r sefydliad hwnnw. Yn ogystal, mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ei gwneud yn ofynnol i berchennog roi'r gorau i ddarparu llety preswyl i fyfyrwyr.

- Cynyddu pwerau i ymchwilio i droseddau a gyflawnir gan ysgolion a gweithredu yn eu herbyn, yn enwedig y rhai sy'n rhedeg ysgolion anghyfreithlon, heb eu cofrestru.
- Ei gwneud yn bosibl i Ofsted ac arolygiaethau eraill rannu mwy o ddata â'i gilydd er mwyn cael gwared ag elfennau sy'n rhwystro effeithlonrwydd.
- Cryfhau cylch gwaith yr Asiantaeth Rheoleiddio Addysgu i ymdrin â chamymddygiad athrawon a gwahardd athrawon o'r proffesiwn, drwy ehangu ystod y rhai sy'n gallu wynebu'r prosesau hyn, a sicrhau bod modd ystyried achosion a atgyfeirir, o ble bynnag y dônt.

Darpariaeth yn y Bil y mae angen cael cydsyniad ar ei chyfer

Gwelliant 96 – Deddf Addysg 1996 (fel y'i hymgorfforir yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn Atodlen 3, paragraff 1):

9. Mae gwelliant 96 (fel y'i hymgorfforir yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn Atodlen 3, paragraff 1) yn gwneud gwelliant i Atodlen 3 y Bil (diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2) fel y'i gosodwyd. Mae'n mewnosod diwygiadau i adran 494 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n gymwys (fel y bydd y diwygiadau) i Gymru a Lloegr. Mae adran 494 yn darparu ar gyfer galluogi awdurdodau lleol i gael eu digolledu am symiau ariannol mewn achosion lle mae disgybl wedi'i wahardd o ysgol mewn un ardal awdurdod lleol, ac wedyn yn cael addysg mewn ardal awdurdod lleol arall (gan gynnwys pan fydd y disgybl yn croesi'r ffin rhwng awdurdodau lleol Cymru a Lloegr). Mae'r diwygiadau yn ehangu'r adran i gwmpasu academiâu.
10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer y ddarpariaeth hon ar y sail bod y gwelliant yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, ac at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (sef ariannu ysgolion Cymru).

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

11. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod gwelliant 96 (fel y'i hymgorfforir yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn Atodlen 3, paragraff 1) i'r Bil yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn mewn perthynas â Chymru yn y Bil Ysgolion

12. Mae gwelliant 96 (fel y'i hymgorfforir yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn Atodlen 3, paragraff 1) yn welliant canlyniadol i gymal 42 (yn Rhan 2) y Bil. Mae cymal 42 (cymal 41 yn y Bil a gyflwynwyd) yn ymdrin ag addasiadau i'r gyllideb ar gyfer disgyblion a gaiff eu gwahardd, a'r bwriad yw sicrhau sail statudol gyson ar draws y sector yn Lloegr (ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac academiâu). Mae'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer didynnu cyllideb mewn perthynas â disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol o academi neu ysgol a gynhelir, ac mae'n disodli'r pŵer yn adran 47(2)(c) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn Lloegr.
13. Bydd y gwelliant yn ymestyn y trefniadau yn adran 494 o Ddeddf Addysg 1996 i gwmpasu academiâu, sydd ond yn bodoli yn Lloegr. Dim ond i ddigolledu yn sgil gwahardd disgyblion sy'n croesi'r ffin y bydd y gwelliant yn berthnasol i Gymru, pan fydd disgybl yn symud o academi yn Lloegr i ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu fel arall, a bydd yn golygu bod y cyllid yn dilyn y disgybl. Mae hyn yn adlewyrchu'r arferion trawsffiniol presennol mewn perthynas ag academiâu, ac felly ffurfioli trefniadau o'r fath yn unig y mae'r gwelliant hwn.
14. Pe bai Senedd Cymru yn bwriadu mynd ati i ddeddfu ar y darpariaethau hyn ei hun, byddai'n cael ei chyfyngu rhag gwneud y diwygiadau heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan baragraff 8 o Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ar y sail eu bod yn gosod swyddogaeth ar awdurdod cyhoeddus yn Lloegr - i'r graddau y byddent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yn Lloegr dalu arian i awdurdod lleol yng Nghymru pan fo disgybl wedi'i wahardd yn barhaol o ysgol academi ac wedyn yn cael addysg mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.
15. Ar y sail hon, ac o ystyried natur ganlyniadol y diwygiadau, hyd a lled yr effaith yng Nghymru, a natur gydgysylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr, ystyrir ei bod yn briodol ac yn gymesur gwneud y ddarpariaeth o fewn un o Filiau'r DU. Bydd y dull gweithredu yn hyrwyddo sicrwydd a dilyniant mewn perthynas â'r rhwymedigaethau ariannu trawsffiniol rhwng y naill wlad a'r llall.
16. Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y ddarpariaeth yn ddadleuol, ac nid ydynt yn golygu cymeradwyaeth i'r polisi ysgolion ehangach yn Lloegr gan eu bod wedi'u cyfyngu i fater trosglwyddo cyllid yn achos disgyblion sydd wedi'u gwahardd.

Goblygiadau ariannol

17. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r gwelliant hwn gan mai ceisio adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol y mae, ond gan gynnwys academiâu ar yr un pryd.

Casgliad

18. Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 12 i 16, argymhellaf y dylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon ym Mil Ysgolion y DU.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
7 Gorffennaf 2022